# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 16 Mawrth 2023

Amser: 10.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Preifat (09.30-10.45)

### 1 Rhag-gyfarfod preifat

(10.30-10.40)

**Dogfennau atodol:**

### 2 Diwygiadau i'r Cytundeb Partneriaeth Gwleidyddol, Masnach Rydd a Strategol rhwng y DU ac Wcráin

(10.40-10.45) (Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## Cyhoeddus (10.45-14.00)

### 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.45)

**Dogfennau atodol:**

### 4 Papurau i'w nodi

(10.45)

**Dogfennau atodol:**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**4.1 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau**

(Tudalen 4)

**Dogfennau atodol:**

Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE [Saesneg yn unig]

**4.2 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 5 - 24)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yn y Bil Amaeth (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor – 7 Mawrth 2023

**4.3 Llythyr oddi wrth y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes**

(Tudalennau 25 - 28)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru i lythyr y Pwyllgor Busnes - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl) - 7 Chwefror 2023

Llythyr oddi wrth y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd - 11 Ionawr 2023

## 5 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog – Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(10.45-12.15) (Tudalennau 29 - 42)

Lesley Griffiths AS

Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## Egwyl (12.15-12.30)

## 6 Gwaith Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion – Gweinidog yr Economi

(12.30–14.00) (Tudalennau 43 – 57)

Vaughan Gething AS

Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Busnes a Rhanbarthau

Jo Salway, Cyfarwyddwr y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg

Chris Hale, Pennaeth Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

**Dogfennau atodol:**

## Preifat (14.00–14.30)

## 8 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(14.00–14.15)

**Dogfennau atodol:**

## 9 Cyllid ar ôl yr UE: Papur cwmpas a dull

(14.15–14.30) (Tudalennau 58 – 67)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

The Rt Hon Michael Gove MP
Secretary of State for Levelling Up, Housing and Communities, and Minister for Intergovernmental Relations

2 March 2023

Dear Michael,

The Senedd's Economy, Trade and Rural Affairs Committee has agreed to undertake an Inquiry into post EU funding arrangements in Wales. This will build on the work previously undertaken by the Senedd's Finance Committee and focus on the areas of funding that fall within our remit including skills and research and development. The Committee intends to invite academics, think tanks, local authorities, previous EU funding beneficiaries and the UK and Welsh Governments to give evidence.

As the replacement of EU funding has proved to be a controversial issue – with the Welsh and UK Governments disagreeing on the impact – Members are very keen to take evidence from the UK Government as part of this Inquiry. Whilst Members are still discussing the specific details of the Inquiry, as I understand how busy Ministerial diaries are I wanted to write and invite you to a session on 17 May. I will be able to provide further details of the Inquiry once they are agreed by the Committee.

Kind regards,

Darren Millar MS
Temporary Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

Darren.Millar@senedd.cymru

7 Mawrth 2023

Annwyl Darren,

Diolch ichi am Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a gyhoeddwyd ar 27 Ionawr ynglŷn â Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a hynny yn rhan o broses graffu Cyfnod 1.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ystyriol yn ystod Cyfnod 1. Rwyf wedi ystyried argymhellion y pwyllgor a'i ystyriaethau o'r Bil yn ofalus.

Fel yr amlinellwyd yn ystod y Ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol Cyfnod 1 a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2023, tynnaf eich sylw at fy ymateb i'r gyfres o argymhellion sydd yn yr adroddiad.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Atodiad: Ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) – Mawrth 2023**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** That the Senedd, taking into account the wide range of evidence provided to us as part of our Stage 1 scrutiny, and the recommendations made in this report, agrees the general principles of the Agriculture (Wales) Bill. |
| **Derbyn**<br><br>Mae'r Bil yn gam cyntaf, angenrheidiol pwysig o ddiwygio Amaethyddol a dyma'r cyntaf o'i fath i Gymru. Mae'n bolisi "gwnaed yng Nghymru", a'i nod yw cefnogi blaenoriaethau Cymru. |
| **Argymhelliad 2.** That the Minister considers the appropriateness of section 50 allowing definitions in the Bill to be amended by subordinate legislation, and what measures might be taken to allay concerns about this provision, including the proposal for a duty to consult. |
| **Derbyn**<br><br>Mae angen y gallu i newid y diffiniad o amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol fel y gall y pwerau, y mae eu cwmpas yn dibynnu ar y diffiniad hwnnw, barhau i fod yn ymatebol i heriau a chyfleoedd yn y sector yn y dyfodol.<br><br>Mae swyddogion yn ymgysylltu â chwnsler cyfreithiol i archwilio'r ffordd orau o gymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i adran 50 i gynnwys gofyniad i ymgynghori â'r Senedd cyn i unrhyw welliant i adrannau 48 a 49 gael eu cyflwyno'n ffurfiol fel rhan o'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd hyn yn golygu y gellir craffu'n ychwanegol ar y newidiadau arfaethedig i adrannau 48 a 49 a'u trafod ymhellach.<br><br>Mae fy ymateb i argymhelliad 44 y pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad 44 yn cyfeirio at faterion tebyg mewn perthynas ag adran 50 hefyd. |
| **Argymhelliad 3.** That the Minister provides further clarification – beyond the Options and Costs and Benefits set out in Chapter 7 of the EM - of the rationale for including the provisions of Parts 4 and 5 of the Bill within this Agriculture (Wales) Bill, rather than those provisions being subject to scrutiny in separate legislation. |
| **Derbyn**<br><br>Mae cyflwyno gwaharddiad ar y defnydd o faglau yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac o'r herwydd yn flaenoriaeth ar gyfer tymor y llywodraeth hon.<br><br>Fe wnaeth swyddogion ystyried Bil annibynnol, ar wahân sy'n 'ymwneud â bywyd gwyllt' wrth ddatblygu'r Bil Amaethyddiaeth. Fodd bynnag, mae cyfraith bywyd gwyllt yn eang a chymhleth, ac yn cwmpasu sawl darn o ddeddfwriaeth, mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd yn y rhan fwyaf o feysydd ond nid pob un. |

| |
|---|
| Bydd cynnwys y pwerau hyn yn y Bil hwn yn sicrhau bod y newid pwysig hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyfle cyntaf yn ddeddfwriaethol fel cam pwysig ymlaen mewn safonau lles anifeiliaid yng Nghymru.<br><br>Mae'r gwelliannau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 sy'n cael eu cynnig yn gydlynol i gwmpas y Bil. Mae coedwigaeth a rheoli coedwigaeth yn rhan annatod o sicrhau canlyniadau rheoli tir cynaliadwy yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae'n ymwneud yn uniongyrchol â'n camau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo yn ail amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) y Bil. Mae'r gwelliannau'n golygu y gellir amddiffyn yn well yn erbyn niwed amgylcheddol yn ystod gweithrediadau cwympo coed, yn unol â thrydydd amcan RhTG y Bil sy'n ymwneud â chynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Mae'r Bil yn darparu mecanwaith addas ac amserol ar gyfer eu cyflwyno a chafodd hyn ei gydnabod yn ymatebion rhanddeiliaid i'r Papur Gwyn. |
| **Argymhelliad 4.** The Minister should give further consideration to how the policy intent around National Minimum Standards is communicated to stakeholders as part of development of the Sustainable Farming Scheme. The Minister should confirm to the Committee her intentions with regard to the NMS, including whether further legislation will be brought forward. The Minister’s consideration should include the timing of Welsh Government’s review of the existing regulatory baseline, and how that regulatory baseline is communicated to the agriculture sector in Wales, whether they are farmers likely to access future support or not |
| **Derbyn**<br><br>Mae Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) eisoes yn bodoli yn y gyfraith. Maen nhw'n darparu ar gyfer y trothwy lleiaf y mae'n ofynnol i bob person gydymffurfio ag ef a'r troseddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos o fynd yn groes i'r SGC perthnasol.<br><br>Mae trawsgydymffurfio’n darparu ar gyfer y cynllun cosbau ariannol gweinyddol (AMPS) sy'n berthnasol i dderbynwyr Cynllun y Taliad Sylfaenol a bydd yn cael ei ystyried wrth gynllunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.<br><br>Mae swyddogion yn archwilio a oes angen pwerau deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd i wneud y canlynol:<br>o Sefydlogi'r sylfaen reoleiddio bresennol a'i rheoliadau.<br>o Darparu mecanwaith i atgyfnerthu'r rheoliadau presennol sy'n cynnwys SGC o dan un statud a rheoliad.<br>o Rhoi awdurdod i Weinidogion Cymru greu rheoliadau newydd sy'n rheoleiddio'r amgylchedd amaethyddol yn fwy priodol o dan gymhwysedd deddfwriaethol domestig.<br><br>Bydd y dadansoddiad hwn yn ystyried yr angen am sancsiynau sifil hefyd – cyfaddawd rhwng Cosbau Ariannol Gweinyddol (AMPS) ac erlyniad troseddol sy'n canolbwyntio ar gosbau sifil am ddiffyg cydymffurfio a fyddai'n berthnasol i bob person yn hytrach na buddiolwyr y cynllun yn unig. |

| |
|---|
| Bydd yn rhaid i unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a allai ymwneud â SGC a/neu sancsiynau sifil ystyried materion sy'n berthnasol i'r cyfnod hwnnw gan gynnwys, er enghraifft, goblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) Llywodraeth y DU. Pan fydd rhagor o wybodaeth am unrhyw gynigion yn y dyfodol ar gael, bydd y newyddion diweddaf yn cael ei roi i'r Pwyllgor. |
| **Argymhelliad 5.** The Committee would welcome the Minister providing more clarity on the role of the farm vet in both the monitoring of the SLM objectives in the Bill, and consultation on National Minimum Standards for animal health and welfare under the new SLM framework |
| **Derbyn**<br><br>Mae'r safonau a fydd yn ffurfio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) yn bodoli eisoes mewn deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid. Bydd SGC yn darparu'r trothwy gofynnol y bydd gofyn i bob ffermwr gydymffurfio ag ef. Bydd SGC yn berthnasol waeth a yw person yn aelod o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) ai peidio.<br><br>Er nad oes cynlluniau uniongyrchol i ddiwygio'r rheoliadau iechyd a lles anifeiliaid presennol, byddai unrhyw newidiadau neu safonau gofynnol newydd a gyflwynir yn mynd drwy broses ymgynghori â rhanddeiliaid a byddai angen iddynt fod yn gyson â'r darpariaethau RhTG i'r graddau y maen nhw'n berthnasol.<br><br>Mae adran 5 yn sefydlu dyletswydd i ymgynghori wrth baratoi neu ddiwygio dangosyddion a thargedau RhTG, sy'n cynnwys dyletswydd i ymgynghori â phersonau y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol (yn ychwanegol at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol). Mae adran 7 yn sefydlu dyletswydd i ystyried dogfennau penodol ac unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol, wrth baratoi adroddiadau RhTG.<br><br>Byddwn yn disgwyl, er enghraifft, yr ymgynghorir â Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru pan fydd materion yn ymwneud ag iechyd neu les anifeiliaid dan ystyriaeth yng nghyswllt paratoi neu adolygu dangosyddion a thargedau, a chyfeirio at dystiolaeth berthnasol ar y materion hyn wrth baratoi adroddiadau RhTG. |
| **Argymhelliad 6.** The Minister should bring forward specific proposals to address the concerns of commoners regarding enforcement and access to support schemes, whether that be through amendments to the Bill at Stage 2 or other solid commitments arising from the work of the common land working group. The Committee looks forward to the Minister reporting back on the proposals arising from that group’s work and how they will be taken forward. |
| **Derbyn**<br><br>Rwy'n cydnabod y cyfleoedd a'r heriau y mae'r ffermwyr allweddol hyn yn eu hwynebu. Byddwn yn cefnogi cominwyr i barhau i ffermio'r tir y mae ganddyn nhw hawliau iddo boed hyn o dan y CFfC neu gynllun ar wahân, opsiynau y mae'r Bil yn caniatáu ar eu cyfer o dan y pŵer i ddarparu cymorth.<br><br>Bydd gweithgor tir comin CFfC yn parhau i gyfarfod dros y misoedd nesaf. Bydd yr allbwn o'r grŵp hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio cylch nesaf cynigion CFfC |

| |
|---|
| i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad yn ddiweddarach yn 2023. Edrychaf ymlaen at adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cynigion a sut y byddant yn cael eu symud ymlaen. |
| **Argymhelliad 7.** The Minister is invited to consider the arguments set out in the Committee's report for changes to the wording of the SLM objectives in the Bill, and to bring forward amendments at Stage 2, or to set out her rationale for not doing so. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn cwmpasu nid yn unig yr amcan (RhTG), ond sut mae RhTG yn cael ei ddiffinio yn y Bil hefyd. Byddaf yn ymateb i'r ddwy agwedd.<br><br>Mae RhTG yn cael ei ddisgrifio'n glir ac yn fanwl yn y Bil gan y pedwar amcan RhTG a'r ddyletswydd RhTG (adrannau 1 i 3) ac rwy'n falch o ddweud bod adroddiad y Pwyllgor yn nodi bod y mwyafrif o'r aelodau'n fodlon 'mai pedwar amcan RhTG sy'n ffurfio'r diffiniad cyffredinol o RhTG' (para 75).<br><br>Mae diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd o RhTG yn rhai lefel uchel a'r nod yw eu bod yn eang fel y gallant fod yn berthnasol i'r amrywiaeth eang o arferion amaethyddol ar hyd a lled y byd. Mae'r ddau ddiffiniad wedi bod yn gyfeiriadau pwysig wrth ddatblygu'r amcanion RhTG. Mae'r amcanion RhTG yn y Bil yn darparu dull a wnaed yng Nghymru, i Gymru, sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau y dylai'r sector amaethyddol fod yn eu darparu ar gyfer y rhai sy'n gweithio ar ein tir ac ar gyfer poblogaeth ehangach Cymru.<br><br>Mae amcanion RhTG a'r ddyletswydd yn sefydlu dull pwrpasol sy'n benodol i Gymru a ddatblygwyd yn y cyd-destun deddfwriaethol penodol yng Nghymru, yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a thrwy ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Yr hyn sy'n bwysig yw bod darpariaethau RhTG yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn eu hategu.<br><br>Roedd yr amcanion yn gosod strwythur clir ac uchelgeisiol ar gyfer polisi amaethyddol yng Nghymru, gan roi'r ffocws ar gamau i gyfrannu at gynhyrchu bwyd cynaliadwy, mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd brys, gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a gwella mynediad atynt a hyrwyddo a chynnal y Gymraeg.<br><br>Mae'r ddyletswydd RhTG yn pennu sut caiff yr amcanion eu cymhwyso ac mae'n gosod trothwy uchel fel bod yn rhaid i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau perthnasol yn y ffordd y maent yn ystyried yr hyn sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion (i'r graddau y maent yn cyd-fynd â'r broses o arfer y swyddogaeth yn briodol) er mwyn sicrhau newid gwirioneddol.<br>Mae deddfu yn y modd hwn yn gymhleth ac yn uchelgeisiol. Mae'r ddyletswydd a'r amcanion yn berthnasol i amrywiaeth eang iawn o swyddogaethau ac yn mynd i'r afael â materion cymhleth, sylfaenol bwysig a pharhaus. |

| |
|---|
| Mae angen gallu gweithredu’r RhTG er mwyn iddo gyflawni dros Gymru a dyna pam y'i cyflwynir fel cyfres o amcanion clir, a dyletswydd, sy'n darparu ffordd ymlaen ar gyfer y sector ac yn osgoi amwysedd. Am y rhesymau hyn, nid oes angen diffiniad pellach o RhTG yn y Bil.<br><br>Mae'r argymhelliad yn gofyn am newidiadau i eiriad yr amcanion RhTG yn y Bil ac i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2. Fe sylwch fy mod wedi amlinellu gwelliannau'r Llywodraeth y cytunwyd arnynt gyda Phlaid Cymru ac y bwriedir eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror 2023.<br><br>Mae'r gwelliant i'r amcan cyntaf yn atgyfnerthu pwysigrwydd busnesau fferm gwydn a'r bwriad o gadw ffermwyr ar eu tir, yn ogystal â busnesau amaethyddol eraill, a'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y maen nhw'n eu darparu i gymunedau.<br><br>Rwy'n bwriadu cyflwyno tri diben newydd i'r rhestr hefyd yn adran 8(2), ac mae un ohonynt yn ymwneud â chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'r cymunedau y maen nhw'n gweithio ynddynt. |
| **Argymhelliad 8.** The Minister should consider amending the third objective in section 1 on including nature recovery more explicitly in the Bill, in line with RSPB Cymru’s suggested inclusion of new wording as outlined in this report, as long as the Minister can alongside this provide a guarantee that this objective will be tied in closely to the actions to be supported in the SFS, and that in her view such a change will not lead to any divergence from the policy intent of the Bill. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae darpariaethau RhTG yn sefydlu ymateb clir i'r argyfwng natur, gan gynnwys adfer natur a'r argyfwng bioamrywiaeth.<br><br>Mae'r trydydd amcan RhTG, yn arbennig, yn gosod gofyniad clir i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion y maen nhw'n eu darparu. Mae hyn yn sicrhau bod ffocws y camau ar wella gwytnwch ecosystemau ac atal ecosystemau rhag mynd y tu hwnt i'w trothwyon cynhenid.<br><br>Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r dull yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n diffinio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy gyfeirio at amcan o “gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu” (adran 3), a hefyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer nod llesiant “Cymru gydnerth” sy'n cyfeirio at “... ecosystemau iach a gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol...” (adran 4).<br><br>Mae adran 1(7) y Bil yn nodi'n benodol ac yn glir bod bioamrywiaeth ecosystemau yn ffactor sy'n berthnasol i wytnwch ecosystemau. Er mwyn i ecosystem fod yn wydn mae angen amrywiaeth yn yr ecosystemau a rhyngddynt gan gynnwys felly amrywiaeth biolegol. |

| |
|---|
| Unwaith eto, mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd bioamrywiaeth ac mae'n cyd-fynd â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sydd hefyd yn cydnabod yn benodol y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a phwysigrwydd bioamrywiaeth wrth hyrwyddo gwytnwch ecosystemau (adrannau 4(i) a 6(1) a (2), er enghraifft).<br><br>Mewn ymateb i bryderon ynghylch y pedwerydd amcan ac arferion rheoli tir a allai fod yn niweidiol i'n hecosystemau (para 92), byddwn yn tynnu sylw, fel yr wyf wedi gwneud o'r blaen, at y ffaith bod amcanion RhTG wedi'u cynllunio i'w gweithredu gyda'i gilydd. Rhaid ystyried unrhyw gamau a gymerir i gyflawni'r pedwerydd amcan yng nghyd-destun y trydydd amcan hefyd, er mwyn cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau. Mae hyn yn gweithio er mwyn sicrhau bod y camau hynny sy'n cydbwyso gwarchod a gwella cefn gwlad, cynnal a gwella cydnerthedd ein hecosystemau, ac yn wir cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac ystyriaethau o ran y newid yn yr hinsawdd, yw'r rhai a fydd yn cael eu symud ymlaen o dan ddyletswydd RhTG.<br><br>Yr hyn sy’n bwysig yw bod y trydydd amcan yn rhoi ffocws y camau gweithredu ar y buddion a ddaw yn sgil ecosystemau gwydn hefyd, fel, er enghraifft, aer a dŵr glanach sy'n cael effaith gadarnhaol ar adferiad natur. Bydd camau gweithredu'r CFfC yn cyfrannu at gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddarperir ganddynt.<br><br>Ni ellir ystyried adferiad natur ar wahân. Dyna pam mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ategu a chefnogi ei gilydd i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Er enghraifft, mae bioamrywiaeth ac adferiad natur yn dibynnu ar weithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd hefyd, a dyma wrth gwrs yw ffocws yr ail amcan RhTG.<br><br>Mae'r trydydd amcan RhTG yn rhoi ffocws cryf a phriodol ar wytnwch ecosystemau ac adferiad natur. Ynghyd â'r amcanion eraill, a'r dibenion a restrir o dan y pŵer i ddarparu cymorth, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth briodol ac ategol i gadw ffermwyr ar eu tir er mwyn sicrhau y gallant gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chyfrannu at ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd.<br><br>Mae ychwanegu ‘adfer’ i’r trydydd amcan yn ddiangen o ystyried ehangder yr amcan fel y disgrifir uchod. Gallai greu tensiwn hefyd rhwng y trydydd amcan a'r amcan cyntaf, cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy, a'r nod a ddatganwyd gennyf o gadw ffermwyr ar eu tir, gan fynd yn groes i fwriad y polisi.<br><br>Mae amcanion RhTG yn gweithio i greu sector Amaethyddol yn y dyfodol lle mae anghenion y ffermwyr ac anghenion yr amgylchedd yn cyd-fynd a bod gweithredoedd i gefnogi'r ddau yn ategu ei gilydd ar yr un tir. |
| **Argymhelliad 9.** The Minister should provide more clarity on how local procurement and local supply chains will be supported by the Bill. |
| **Derbyn** |

| |
|---|
| Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno gwelliannau'r llywodraeth. O ran yr amcan RhTG cyntaf, mae gwelliant y Llywodraeth yn cyflwyno darpariaeth newydd sy'n nodi ffactorau sy'n berthnasol i p’un ai yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy, sy'n cynnwys gwytnwch busnesau amaethyddol.<br><br>Yn ogystal, bydd gwelliannau’r llywodraeth yn cael eu cyflwyno i ychwanegu tri diben newydd, y mae dau ohonynt yn berthnasol yng nghyd-destun caffael lleol a chadwyni cyflenwi lleol: helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau, a gwella gwytnwch busnesau amaethyddol.<br><br>Mae'r gwelliannau hyn yn egluro mai'r bwriad yw i brosesau caffael lleol a chadwyni cyflenwi lleol gael eu cefnogi gan gynlluniau a gaiff eu creu o dan y pŵer i ddarparu cymorth yn y Bil.<br><br>Un enghraifft bosibl o sut gellid darparu cymorth sy'n helpu prosesau caffael lleol a chadwyni cyflenwi lleol fyddai cymorth sy'n galluogi ffermwyr i arallgyfeirio y tu allan i'w busnes craidd i feysydd fel gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid, yn ogystal â phrosesu nwyddau.<br><br>Enghraifft arall fyddai arallgyfeirio dulliau ffermio i gefnogi'r gwaith o gynyddu bioamrywiaeth neu wytnwch ecosystemau ar ffermydd, gan ddefnyddio llafur ac arbenigedd cymunedol lleol. Gallai hyn helpu i wneud busnesau fferm yn fwy gwydn yn ogystal â chadw arian a chyflogaeth yn yr ardal leol.<br><br>Mae'r diffiniad o weithgaredd ategol yn cynnwys gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu a dosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth, sy'n cynnwys gweithgareddau a wneir gan gadwyni cyflenwi lleol.<br><br>Mae'r diffiniad o “weithgaredd ategol” yn cynnwys dau faes penodol y gellir eu categoreiddio'n fras fel gweithredoedd amgylcheddol a gweithredoedd busnes. Diben y camau Busnes y bwriedir iddynt ddod o fewn cwmpas gweithgareddau ategol, yw cefnogi'r camau arallgyfeirio ac arloesi hynny y gall ffermwr ddewis eu gwneud.<br><br>Gallai hyn gynnwys unrhyw gamau cydweithredol â ffermydd eraill neu fusnesau eraill y gadwyn gyflenwi, er enghraifft pecynnu bwyd, marchnata cynhyrchion neu ladd-dai. Bwriad cynnwys gweithgareddau ategol yn y Bil yw cryfhau neu fyrhau cadwyni cyflenwi, a chefnogi dulliau newydd o weithio mewn perthynas ag amaethyddiaeth.<br><br>Bydd cynlluniau cymorth a sefydlir o dan y pŵer i ddarparu cymorth (e.e. y CFfC) yn darparu'r ddogfennaeth fanwl ynglŷn â sut maen nhw'n bwriadu cefnogi cadwyni caffael a chyflenwi lleol, boed hynny drwy gamau gweithredu neu brosiectau cydweithredol. |
| **Argymhelliad 10.** The Minister should bring forward amendments to strengthen the fourth objective, so that more explicit emphasis is given to the policy intent to |

| |
|---|
| support strong and vibrant rural communities and to address stakeholders' concerns. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror 2023 yn cadarnhau bwriad Gweinidogion Cymru i gyflwyno gwelliant i egluro bod gwytnwch busnesau amaethyddol yn y cymunedau y maen nhw'n gweithredu ynddynt yn ffactor perthnasol yn yr amcan cyntaf.<br><br>Mae'r gwelliant hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd busnesau fferm gwydn a'r bwriad o gadw ffermwyr ar eu tir, yn ogystal â busnesau amaethyddol eraill, gan ddangos gwerth y busnesau hynny, gan gynnwys er enghraifft y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y maen nhw'n eu darparu i gymunedau.<br><br>Ynghyd â'r dibenion newydd sy'n cael eu cyflwyno, mae'r gwelliant yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng busnesau a chymunedau amaethyddol ffyniannus. Mae'n cyfeirio at gyfleoedd i annog cymunedau cryf a bywiog drwy, er enghraifft, hyrwyddo arallgyfeirio a chael ffermwyr i ymgysylltu â chadwyni cyflenwi lleol, gan gynyddu cyflogaeth leol a chyfleoedd busnes newydd.<br><br>Mae cefnogi cymunedau cryf a bywiog drwy eu busnesau amaethyddol, yn cyd-fynd yn well â'r amcan cyntaf, gan gynnal y bwriad fel yr argymhellir gan y Pwyllgor. |
| **Argymhelliad 11.** The Minister should bring forward amendments to the Bill to strengthen its provisions for sustaining and promoting the Welsh language: this may include by adding it to the list of purposes in section 8, and committing to include specific indicators and targets in order to better measure outcomes. |
| **Derbyn**<br><br>Mae diwygiadau arfaethedig y Llywodraeth yn cynnwys darparu pwrpas ychwanegol o dan adran 8(2) y Bil ar gyfer cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.<br><br>Fel rhan o'r amcanion RhTG mae gofyniad yn bodoli eisoes i un dangosydd penodol o leiaf gael ei osod ar gyfer y pedwerydd amcan RhTG (sy'n cynnwys y Gymraeg), (a phob un o'r amcanion RhTG eraill), ac o leiaf un targed penodol sy'n ymwneud â'r dangosydd hwnnw. Mae lle i osod dangosyddion a thargedau ychwanegol (adran 4(3) i (5)), a rhagwelir y byddid yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch unrhyw ddangosyddion a thargedau arfaethedig yn ymwneud â'r Gymraeg.<br><br>Mae'r datganiad cyntaf sy'n cyhoeddi'r dangosyddion a'r targedau hyn i'w gyflwyno gerbron y Senedd ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2025, fel y nodir yn adran 4(8)(a) a (b). |
| **Argymhelliad 12.** The Minister should amend section 2 to: a) make it clearer that there is no hierarchy to the SLM objectives, and that they must be delivered in a |

| |
|---|
| balanced way to achieve the overarching SLM policy goals and b) in amending section 2 should consider wording from the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 that places a duty on Welsh Ministers to ‘maximise their contributions’ and to ‘take all reasonable steps to do so’. |
| **Heb ei dderbyn**<br><br><u>12a)</u><br><br>Mae amcanion RhTG i'w hystyried gyda'i gilydd, heb unrhyw hierarchaeth ac rwy'n credu bod hyn yn cael ei wneud yn glir yn y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.<br><br>Effaith y ddyletswydd RhTG yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y pedwar amcan RhTG ac yna arfer swyddogaeth berthnasol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion hynny o'u cyflawni gyda'i gilydd, (i'r graddau y mae hynny'n cyd-fynd ag arfer y swyddogaeth yn briodol). Mae hyn yn gosod trothwy uchel a chyfeiriad clir fel bod rhaid i Weinidogion Cymru weithredu mewn modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni amcanion RhTG yn gyffredinol. Nid oes hierarchaeth rhwng yr amcanion.<br><br>Mae'r ddyletswydd yn berthnasol ar draws amrywiaeth eang o swyddogaethau amaethyddol (adrannau 2 a 3) ac mae'n darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol hefyd, er enghraifft, i gymryd camau nad ydynt yn cyfrannu at yr holl amcanion yn gyfartal o reidrwydd, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod y camau a gymerir yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion RhTG yn gyffredinol.<br><br><u>12b)</u><br><br>Mae'r ddyletswydd RhTG yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer swyddogaeth berthnasol yn y modd y maent yn ystyried sy’n “cyfrannu orau” at gyflawni'r amcanion RhTG, i'r graddau y mae hynny'n cyd-fynd ag arfer y swyddogaeth yn briodol (adran 2(1)).<br><br>Mae hyn yn gosod trothwy uchel a chyfeiriad polisi clir, felly pan fydd mwy nag un opsiwn polisi, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddewis yr opsiwn y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni amcanion RhTG yn gyffredinol. Felly, nid oes angen gosod rhwymedigaeth i “wneud y mwyaf o'u cyfraniad” gan nad yw'n cael ei ystyried y bydd hyn yn ychwanegu unrhyw beth at y ddyletswydd bresennol.<br><br>Gellid dadlau y byddai gosod rhwymedigaeth i weithredu'n “rhesymol” neu i “gymryd pob cam rhesymol” yn cyflwyno elfen o amwysedd ychwanegol i'r broses o arfer y ddyletswydd drwy gyfeirio at ffactorau allanol amhenodedig. Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru fel mater o gyfraith gyhoeddus weithredu'n rhesymol wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys y ddyletswydd RhTG.<br><br>Felly, nid yw'r gwelliant arfaethedig i adran 2 yn angenrheidiol a gall effeithio'n andwyol ar y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 13.** The Minister should bring forward an amendment to provide for interim reports that account for the time taken for different objectives to be achieved, and also consider whether the wording of section 6 should be amended to require reports to outline why successful outcomes have been achieved, rather than just why they have not been (sections 6(4) and section 6(5)). |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae amcanion RhTG yn dargedau i weithio tuag atynt, nid targedau ar wahân y disgwylir iddynt gael eu cyflawni'n llwyr yn ystod oes y Bil. Er enghraifft, bydd lliniaru ar gyfer risgiau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ymdrech barhaus ac nid oes cyflwr penodedig ar gyfer amaethyddiaeth y gallem ei ddweud yn gywir sy'n lliniaru ac addasu'n llwyddiannus ac yn llwyr i effeithiau newid yn yr hinsawdd.<br><br>Diben y ddyletswydd RhTG yw rhoi cyfeiriad polisi clir ar gyfer gweithredu sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion. Byddai'n bosibl i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau dros dro, pe bai angen, heb ragor o ddarpariaeth ddeddfwriaethol ac felly nid oes angen darpariaeth ychwanegol mewn perthynas â hyn.<br><br>Gall adroddiadau'r RhTG esbonio pam mae canlyniadau wedi’u cyflawni'n llwyddiannus, os ystyrir hynny'n briodol. Mae adran 6(7)(a), er enghraifft, yn galluogi Gweinidogion Cymru i adrodd ar unrhyw faterion eraill y maent yn eu hystyried yn berthnasol wrth asesu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni amcanion RhTG. Ystyrir bod gosod gofyniad i adrodd ar pam y mae canlyniadau wedi'u cyflawni'n llwyddiannus ym mhob achos yn ddiangen. |
| **Argymhelliad 14.** The Minister should consider how the reporting timescales are aligned with reporting cycles for the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015 and Environment (Wales) Act 2016 and bring forward any necessary amendment to section 6 of the Bill to account for this. |
| **Derbyn**<br><br>Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) adroddiad blynyddol ac adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae amseriad yr adroddiadau hyn yn gysylltiedig â chynnal etholiad cyffredinol, sy'n gallu amrywio.<br><br>Yn yr un modd, mae'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a bennir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi'r adroddiad yn y flwyddyn cyn etholiad cyffredinol. Dylai'r cyfnod adrodd RhTG cyntaf ddigwydd yn 2025 a phob pum mlynedd wedi hynny. Fel mae'n digwydd, ar hyn o bryd bwriedir cynnal yr etholiad cyffredinol nesaf yn 2026 a fyddai'n golygu y byddai adroddiad RhTG, adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac adroddiad cyntaf RhTG oll yn cael eu cyhoeddi ar adegau tebyg.<br><br>Mae adroddiad RhTG, ynghyd â'r adroddiad Blynyddol yn adran 12 a'r adroddiad Effaith yn adran 13 o Fil Amaethyddiaeth (Cymru) yn rhoi digon o gyfle i graffu a chaiff Gweinidogion Cymru, drwy reoleiddio, ddiwygio'r cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad RhTG a'r adroddiad Effaith. |

| |
|---|
| Mae'r Bil fel y'i drafftiwyd yn cynnwys digon o ddarpariaethau ar gyfer craffu ac mae'n rhoi cyfle i gysoni'r hyn a adroddir ag adroddiadau perthnasol ehangach Llywodraeth Cymru. |
| **Argymhelliad 15.** The Minister should consider bringing forward an amendment to the wording of section 7 - as proposed by NRW in its consultation response – to ensure that the full scope of consideration is given to the state of natural resources reports (SoNaRR) in preparing the SLM report. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Nid oes adroddiad unigol ar 'gyflwr presennol adnoddau naturiol' felly nid yw'n bosib ei gynnwys fel cyfeiriad yn y Bil. Roedd eglurhad gan CNC yn nodi nad yw'r adroddiad diweddaraf yn cynnwys gwybodaeth sydd heb newid ers yr adroddiad diwethaf. Er mwyn creu darlun cyflawn, byddai angen ystyried pob adroddiad ar gyflwr Adnoddau Naturiol ers 2016 gyda'i gilydd, tasg a fydd yn dod yn fwyfwy dwys o ran adnoddau dros amser.<br><br>Mae'r darpariaethau fel y maent ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad diweddaraf ar gyflwr Adnoddau Naturiol ac mae 7(d) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried unrhyw faterion eraill y maent yn eu hystyried yn briodol. Mae hyn yn golygu y gellir cynnwys adroddiadau hanesyddol eraill ar Adnoddau Naturiol, gan gynnwys adroddiadau dros dro/drafft, os ystyrir eu bod yn berthnasol. Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddaru i ddangos y bydd disgwyl i Weinidogion adolygu adroddiadau blaenorol ar gyflwr Adnoddau Naturiol os ystyrir hynny'n angenrheidiol.<br><br>Mae hyn yn rhoi sylw sylweddol i adroddiadau ar gyflwr Adnoddau Naturiol a bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i gyflwr adnoddau naturiol wrth baratoi adroddiad RhTG. |
| **Argymhelliad 16.** The Minister should provide further clarity on the scope of support for "ancillary activities" as defined in section 49 of the Bill, for the benefit of those involved both directly in agriculture and indirectly in the agri-food supply chain. The Minister should also confirm whether she intends to bring forward amendment(s) to the wording of section 8(1) and/or the definition of "ancillary activity" in section 49, to enhance understanding and for the avoidance of doubt. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae "gweithgaredd ategol" yn cynnwys amrywiaeth eang o gamau gweithredu, sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, ac mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i fod yn ymatebol i ddatblygiadau yn y sector yn y dyfodol sy'n golygu y bydd cymorth ar gael a fydd yn cynnwys y gadwyn gyflenwi i raddau mwy.<br><br>Mae'r diffiniad o 'weithgaredd ategol' yn cynnwys dau faes ar wahân y gellir eu categoreiddio'n fras fel gweithredoedd amgylcheddol a gweithredoedd busnes. Mae'r diffiniad yn cysylltu gweithredoedd amgylcheddol (e.e. amddiffyniad naturiol rhag llifogydd neu gynlluniau rheoli ynni) â thir a ddefnyddir ar gyfer |

| |
|---|
| amaethyddiaeth, a'r gweithredoedd busnes i gynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.<br><br>Diben y camau busnes y bwriedir iddynt ddod o fewn cwmpas gweithgareddau ategol, yw cefnogi'r camau arallgyfeirio ac arloesi hynny y gall ffermwr ddewis eu gwneud. Gallai hyn gynnwys camau cydweithredol â ffermydd eraill neu fusnesau eraill yn y gadwyn gyflenwi. Bwriad cynnwys gweithgareddau ategol yn y Bil yw cryfhau neu fyrhau cadwyni cyflenwi, a chefnogi dulliau newydd o weithio mewn perthynas ag amaethyddiaeth.<br><br>Mae “gweithgaredd ategol” yn cynnwys amrywiaeth eang o gamau gweithredu, sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, ac mae'n golygu y bydd cymorth ar gael a fydd yn cynnwys y gadwyn gyflenwi i raddau mwy. Lle’r cynlluniau cymorth hynny fydd penderfynu ar gwmpas gweithgareddau'r gadwyn gyflenwi sydd dan sylw.<br><br>Mae'r diffiniad o “weithgaredd ategol” yn glir yn adran 49(b) eisoes, sef bod gweithgareddau'r gadwyn gyflenwi’n gysylltiedig â chynhyrchion amaethyddol yn hytrach na'r camau a gymerir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth. Wrth ei ddarllen ochr yn ochr â'r Memorandwm Esboniadol, mae hyn yn rhoi ystyr a dealltwriaeth gadarn o'r term, gan gael gwared ar yr angen am welliant i'r Bil.<br><br>I roi eglurhad pellach, lle y bo'n briodol, bydd rhagor o enghreifftiau o gwmpas amrywiol ‘gweithgareddau ategol’ yn cael eu darparu mewn Memorandwm Esboniadol wedi’i ddiweddaru.<br><br>Bydd angen i bob cynllun cymorth fanylu ar unrhyw gyfyngiadau o ran cymhwyso ‘gweithgareddau ategol’ lle byddant yn cael eu darparu, yn nogfennaeth y cynllun. Er enghraifft, o dan y CFfC, mae cyfyngiad arfaethedig sef y bydd angen i ffermwr yn y cynllun fod yn rhan o'r gweithgareddau ategol fel cadwyn gyflenwi, er mwyn dyfarnu unrhyw gymorth. |
| **Argymhelliad 17.** The Minister should review the wording of ‘taking action on land’ in section 49 and bring forward any necessary amendment to remove any confusion or issues arising from lack of status with other relevant legislation |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae'r diffiniad o “weithgaredd ategol” yn cynnwys dau faes ar wahân y gellir eu categoreiddio'n fras fel gweithredoedd amgylcheddol a gweithredoedd busnes. Mae'r diffiniad yn cysylltu gweithredoedd amgylcheddol â thir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, a'r gweithredoedd busnes i gynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.<br><br>Mae'r camau gweithredu sy'n rhan o'r diffiniad, yn adran 49(a)(i) i (iii) yn cynnwys gweithredoedd ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth a bydd yn cynnwys camau amgylcheddol y mae ffermwyr yn eu cyflawni eisoes, fel amddiffyniad naturiol rhag llifogydd, cynlluniau rheoli ynni, a chreu ecosystemau, fel cloddiau chwilod. |

| |
|---|
| Mae'r diffiniad o "weithgaredd ategol" yn adran 49(b) yn ei gwneud yn glir bod gweithgareddau'r gadwyn gyflenwi'n gysylltiedig â chynhyrchion amaethyddol yn hytrach na chamau a gymerir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth.<br><br>Mae'r diffiniad o 'weithgaredd ategol' a'i is-adran yn 49(a) "gweithredu, ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth" yn berthnasol i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) hwn yn unig. Mae diffiniadau mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth i'w dehongli yn unol â'r offerynnau deddfwriaethol hynny.<br><br>Mae'r sefyllfa hon uchod yn rhoi'r eglurder angenrheidiol, felly nid oes angen gwelliant i adran 49. |
| **Argymhelliad 18.** The Minister should bring forward amendments to the Bill to address the points raised by the Committee about omissions from the list of purposes in section 8, or provide a rationale for not including additional elements. |
| **Derbyn**<br><br>Y bwriad yw cyflwyno'r diwygiadau canlynol gan y llywodraeth i ategu'r dibenion a restrir o dan adran 8(2):<br><br>o gwella gwytnwch busnesau amaethyddol<br>o helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau<br>o cynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.<br><br>Mae'r dibenion hyn yn ceisio cefnogi gwytnwch busnesau amaethyddol drwy weithredoedd sy'n helpu ffermwyr i reoli cynhyrchiant, dod yn fwy gwydn, gwybodus ac addasol i newid, gan gynnwys y gallu i'r busnesau arloesi.<br><br>Yn ogystal ag annog cefnogaeth i arferion arloesol sydd â'r nod o adfywio busnesau amaethyddol a chreu cyfleoedd mewn cymunedau. Gallai cymorth o dan y dibenion hyn gynnwys galluogi ffermwyr i arallgyfeirio y tu allan i'w busnes craidd, (cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill) i feysydd fel gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid, a phrosesu nwyddau. Mae'r dibenion newydd yn adlewyrchu argymhelliad y Pwyllgor o ran arloesi a mynediad i'r gymuned.<br><br>Mae gwelliant arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer "cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni" yn cyd-fynd â phedwerydd amcan RhTG ac yn ceisio cyfrannu at strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 (*Cymraeg 2050)*.<br><br>Mae pwrpas yn bodoli eisoes sy'n cwmpasu'r addysg am systemau bwyd. Mae 8(2)(h) "cynnal a gwella mynediad ac ymgysylltiad y cyhoedd â chefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol", yn darparu ar gyfer cymorth i'r ffermwyr hynny sydd am ddarparu cyfleoedd addysgol ar fwyd a ffermio (cylch oes o'r fferm i'r fforc), drwy gynnal ymweliadau fferm addysgol er enghraifft, i ysgolion lleol gael ymweld â fferm. |
| **Argymhelliad 19.** The Minister should bring forward amendments to the Bill to take account of the needs of new entrants, and report back to the Committee on |

| |
|---|
| other actions that will be taken as a result of the work of the new entrants working group. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno nifer o welliannau gan y llywodraeth, gan gynnwys pwrpas newydd o dan adran 8(2) ar gyfer “gwella gwytnwch busnesau amaethyddol” i gefnogi'r bwriad polisi cyffredinol o gadw ffermwyr ar y tir.<br><br>Byddai hyn yn sicrhau cefnogaeth benodol mewn perthynas â busnesau amaethyddol sy'n ceisio cefnogi gweithredoedd sy'n gysylltiedig â'u gwytnwch. Mae gwytnwch busnes yn cynnwys cynllunio olyniaeth fferm a'r cyfle i newydd-ddyfodiaid. Mae busnesau fferm gwydn yn gallu darparu cyflogaeth hirdymor ddibynadwy a chyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ategol hefyd, lle mae sgiliau a phrofiad yn cael eu gwerthfawrogi.<br><br>Mae'r gweithgor rhanddeiliaid i newydd-ddyfodiaid, sy'n cynnwys yr undebau amaeth, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru a chynrychiolwyr rhai o'r colegau amaethyddol, yn ystyried opsiynau cymorth a meini prawf cymhwysedd, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau i newydd-ddyfodiaid a rhai ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant megis mynediad at dir, mynediad at gyllid a datblygu sgiliau busnes.<br><br>Bydd y grŵp yn parhau i gyfarfod dros y misoedd nesaf a bydd yr allbwn o'r grŵp yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio'r iteriad nesaf o gynigion CFfC. |
| **Argymhelliad 20.** The Minister is invited to consider the evidence from stakeholders for the Bill to be strengthened further to promote horticulture and maximise opportunities for diversification, and to consider how the Bill’s objectives align with stakeholder views on the Food (Wales) Bill. |
| **Derbyn**<br><br>Mae'r Bil yn golygu y gellir cael cefnogaeth i arddwriaeth a mathau eraill o arallgyfeirio wrth eu cynnwys yn y diffiniad o amaethyddiaeth sy'n golygu bod cefnogi garddwriaeth yn bosibl o dan y pŵer i roi cymorth.<br><br>Mae diogelwch bwyd, a godwyd ym marn rhanddeiliaid am Fil Bwyd (Cymru) yn fater eang sydd, wrth gwrs, yn cwmpasu amaethyddiaeth ond masnach genedlaethol a rhyngwladol hefyd, yn ogystal â materion storio bwyd a threthi, i enwi ychydig o ffactorau perthnasol. Mae'r Bil, yn enwedig drwy amcanion RhTG, dyletswydd a'r pŵer i ddarparu cymorth yn helpu i alluogi'r sector amaethyddol yng Nghymru i wneud ei ran mewn dull cyfannol o ran diogelwch bwyd. |
| **Argymhelliad 21.** The Minister should give consideration to amending the Bill to include a timescale for acting on the findings of any Impact Report prepared under section 13 of the Bill. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Ar ôl adolygu, mae'n amlwg na fyddai un amserlen ar gyfer gweithredu ar ganfyddiadau yn briodol ar y sail y gall pob cam a gymerir i gyflawni'r dibenion fynnu amserlenni amrywiol. |

| |
|---|
| Rhaid i'r Adroddiad Effaith nodi'r dibenion y darparwyd cymorth ar eu cyfer yn ystod y cyfnod adrodd a rhaid iddo nodi asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y cymorth hwnnw hefyd. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r ffordd a'r graddau y mae'r cymorth wedi cyflawni, neu fethu cyflawni'r diben neu'r dibenion y darparwyd cymorth ar ei gyfer/eu cyfer.<br><br>Mae'r Adroddiad Effaith yn gallu tynnu sylw at amserlen ar gyfer unrhyw ganfyddiadau, gan gynnwys unrhyw fethiannau, i'w gweithredu. Mae'r Memorandwm Esboniadol (tudalen 40, paragraff 3.123) yn nodi: "Os bydd yr asesiad yn barnu nad yw'r cymorth wedi cyflawni'i ddiben, bwriedir i'r Adroddiad Effaith nodi'r camau y dylid eu cymryd i unioni'r methiant." Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys amserlen ar gyfer unrhyw gamau unioni.<br><br>Mae adran 13(4) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru adrodd ar unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ddibenion asesu effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r pŵer hwn yn golygu y gellir adrodd yn ychwanegol yng nghyd-destun yr Adroddiad Effaith, gan gynnwys unrhyw amserlenni sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau yn yr Adroddiad Effaith.<br><br>Am y rhesymau hyn, ni ystyrir bod gwelliant yn angenrheidiol. |
| **Argymhelliad 22.** The Minister should report back to the Committee on how the concerns of tenant farmers about the dispute resolution provisions in the Bill are being addressed. This should include confirming whether the Minister intends to bring forward amendment(s) to Chapter 4 of the Bill, or otherwise consulting with the Committee on her rationale for an alternative approach. |
| **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Gofynnwyd am adborth ar hyn yn y Papur Gwyn Amaethyddiaeth ac ni ddaeth tueddiadau clir i'r amlwg i gefnogi newidiadau deddfwriaethol i fframwaith Tenantiaeth Busnes Fferm ar y pryd.<br><br>Wedi dweud hynny, rydym yn deall nad yw holl hyblygrwydd y fframwaith Tenantiaeth Busnes Fferm yn cael ei ddefnyddio bob amser ac efallai y bydd rhai tenantiaid yn gweld bod eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu mewn ffyrdd penodol.<br><br>Rydym wrthi'n ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid drwy ein gweithgorau CFfC ac yn cyd-lunio er mwyn sicrhau bod cynigion yn briodol ar gyfer gwahanol grwpiau o ffermwyr, gan gynnwys y rhai sydd â thir ar denantiaeth. Bydd y grwpiau'n parhau i gyfarfod dros y misoedd nesaf i ystyried yr hyn sy'n atal mynediad i'r cynllun ac atebion priodol. Bydd yr allbynnau'n cael eu defnyddio i helpu i lywio'r iteriad nesaf o gynigion CFfC a fydd yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor. |
| **Argymhelliad 23.** The Minister should note the concerns raised by the Committee about the data collection provisions in Part 3 of the Bill, and confirm that the Welsh Government will publish information clearly identifying all controllers and processors for any data collected under the Bill, to ensure transparency around the process for farmers. |
| **Derbyn mewn egwyddor** |

| |
|---|
| Mae'r Bil yn darparu mesurau diogelu sylweddol mewn perthynas â chasglu data, gan gynnwys hyd a dibenion y defnydd a phwy fydd yn ei brosesu a sut. Mae tryloywder yn bwysig, a byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth briodol am reolyddion a phroseswyr cyn i unrhyw ofynion gael eu gosod.<br><br>I ail-gadarnhau, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fod wedi cyhoeddi eu gofynion drafft arfaethedig am bedair wythnos o leiaf, ar gyfer sylwadau, cyn i'r gofynion gwybodaeth gael eu cyflwyno. Rhaid i'r gofynion hyn nodi'r dibenion y bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu ar eu cyfer ac ni chaiff y gwaith o brosesu'r wybodaeth dorri'r gofynion a bennir. Mae'r gofynion yn golygu hefyd y gellir darparu gwybodaeth am y person y mae'r wybodaeth yn cael ei darparu iddo.<br><br>Bydd unigolion yn cael gwybodaeth glir am breifatrwydd ynghylch sut y bydd eu data'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru. |
| **Argymhelliad 24.** The Minister should confirm whether Welsh Government is willing to amend the Bill to include a commitment to a review of the operation of the data collection regime under the provisions in the Bill, after five years. |
| **Derbyn**<br><br>Mae'r Bil yn darparu mesurau diogelu sylweddol mewn perthynas â chasglu data, gan gynnwys hyd a dibenion y defnydd a phwy fydd yn ei brosesu a sut. Gallai adolygu gweithrediad y mesurau diogelu hyn helpu i gryfhau eu gweithrediad, o ganlyniad, y bwriad yw cyflwyno darpariaeth ar gyfer adolygiad o weithrediad y drefn casglu data o dan y darpariaethau casglu data, ar ôl pum mlynedd.<br><br>Y bwriad yw gosod hyn fel gwelliant llywodraeth Cyfnod 3. |
| **Argymhelliad 25.** The Minister should bring forward an amendment to the Bill to commit Welsh Ministers to undertake impact assessments of future trade deals on Welsh agriculture. |
| **Heb ei dderbyn**<br><br>Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw trafod a chytuno ar Gytundebau Masnach Rydd, mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod barn Gweinidogion Cymru a buddiannau Cymru yn cael eu deall yn llawn.<br><br>Yn achos Cytundebau Masnach Rydd sydd eto i'w cytuno, mae rhai cyfyngiadau ynghylch dichonoldeb modelu'n gadarn effeithiau'r dyfodol o ystyried diffyg gwybodaeth fanwl ac amserol am gytundebau masnach i lywio newidynnau mewnbwn (cyn cyhoeddiadau polisi Llywodraeth y DU) yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch amserlenni a chanlyniadau trafodaethau Cytundeb Masnach Rydd yn y dyfodol.<br><br>Mae adroddiadau ar gytundebau masnach sydd wedi'u trafod ac unrhyw faterion cysylltiedig sy'n effeithio ar Gymru’n cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru eisoes cyn i'r cytundebau hynny gael eu cadarnhau gan Senedd y DU. Er |

| |
|---|
| enghraifft, cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfer cytundebau masnach y DU-Awstralia a'r DU-Seland Newydd.<br><br>Ar hyn o bryd dim ond mynediad cyfyngedig iawn sydd gan Lywodraeth Cymru at ddata masnach manwl ar lefel Cymru sy'n ofynnol ar gyfer y modelu i fod yn sail i asesiad effaith benodol i Gymru ac ar hyn o bryd mae'n dibynnu ar ddata lefel y DU – mae ein cais diweddaraf am fynediad at ddata masnach manwl gan CThEM yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ond nid oes sicrwydd y byddwn yn cael mynediad. |
| **Argymhelliad 26.** The Welsh Government, Natural Resources Wales and the forestry sector should continue to work together on guidance and mutual understanding around the new powers set out in Part 4 of the Bill. |
| **Derbyn**<br><br>Sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaethau Coedwigaeth Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr coedwigaeth, rheoli tir a chadwraeth, at ddiben darparu mewnbwn i ddatblygiad ac effaith y darpariaethau sy'n diwygio Deddf Coedwigaeth 1967.<br><br>Ymrwymodd CNC i barhau i ymgysylltu â'r grŵp rhanddeiliaid hwn yn eu papur lefel uchel ar eu dull o weithredu'r pwerau newydd hyn, a gyhoeddwyd fel dogfen ategol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn â rhanddeiliaid yn sicrhau bod canllawiau allanol CNC yn cael eu datblygu mewn ffordd gydweithredol ac yn addas i'r diben.<br><br>Mae CNC wedi gwahodd aelodau o grŵp rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru i ymgysylltu eisoes, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd bob 6 wythnos ynghyd â chyfleoedd i roi sylwadau ar ddatblygiad dogfennau wrth iddynt godi. |
| **Argymhelliad 27.** The Minister should set out how she sees the other woodland management issues raised during Stage 1 scrutiny being addressed, including greater protections for ancient woodland and veteran trees. |
| **Derbyn**<br><br>Nodwyd bod y canlynol yn faterion allweddol yn ymwneud â rheoli coetiroedd a godwyd yn ystod proses graffu Cyfnod 1:<br>• Gwelwyd datgysylltiad rhwng ffermio a choedwigaeth – system 2 haen<br>• Trwyddedau cwympo coed yn newid o 2 flynedd i 5 mlynedd<br>• Mwy o amddiffyniadau i goetiroedd hynafol a choed hynod<br><br><u>Gwelwyd datgysylltu rhwng ffermio a choedwigaeth – system 2 haen</u><br>Bwriad Llywodraeth Cymru yw parhau i sicrhau bod cymorth i greu coetiroedd ar gael i bob rheolwr tir cymwys drwy amrywiaeth o fecanweithiau.<br><br><u>Trwyddedau cwympo coed yn newid o 2 flynedd i 5 mlynedd</u><br>Mae’r pŵer gan CNC eisoes i ymestyn trwyddedau cwympo coed o 2 flynedd i 5 mlynedd os oes angen hyn. Mae'r opsiwn o gynllun rheoli hirdymor eisoes yn rhoi dull i berchnogion coetiroedd preifat i gael trwydded cwympo coed 10 mlynedd, yn amodol ar adolygiad ar ôl 5 mlynedd. |

| |
|---|
| Mwy o amddiffyniadau i goetiroedd hynafol a choed hynod<br>Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gryfhau'r amddiffyniadau ar goetiroedd hynafol.<br><br>Mae llawer o fygythiadau sy'n cyd-fynd â'i gilydd yn gysylltiedig â choed a choetiroedd hynafol. Mae'n bwysig ein bod yn eu diogelu mewn modd cyfannol ac yn ystyried y potensial i lawer o wahanol feysydd polisi gyfrannu at hynny.<br><br>Mae'r pwerau newydd a gynigir gan y diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn darparu'r gallu i ychwanegu amodau sy'n benodol i safle neu amodau pwrpasol ar gyfer trwyddedau cwympo coed lle mae'r rhain yn briodol. Mae'r pwerau newydd hyn yn berthnasol i'r gwaith o reoli coetiroedd hynafol.<br><br>Mae meysydd polisi perthnasol eraill yn cynnwys gwneud ein coetiroedd hynafol yn ganolog i'n cynlluniau i greu Coedwig Genedlaethol i Gymru, defnyddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gynorthwyo ffermwyr i amddiffyn a rheoli eu coetiroedd yn well a sicrhau bod ein system gynllunio'n gweithio i amddiffyn coed a choetiroedd hynafol. Mae gwaith yn parhau ar draws y meysydd polisi amrywiol hyn a fydd yn helpu i wella cyflwr coetiroedd hynafol. |
| **Argymhelliad 28.** The Welsh Government and Natural Resources Wales should work at pace to identify and agree the data that will need to be captured to assess the effectiveness of the new provisions in Part 4 of the Bill. |
| **Derbyn**<br><br>Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth o fewn 3 blynedd i gychwyn gwelliannau.<br><br>Bydd y gwaith o ran cytuno ar gasglu data i lywio'r adolygiad yn cael ei wneud fel y gellir casglu data'n amserol ar ôl gweithredu'r Bil. |
| **Argymhelliad 29.** A clear majority of the Committee support the provisions of Part 5 of the Bill to prohibit use of snares, although there was support from two Members for the Minister to give further consideration to a highly-regulated licensing system. |
| **Derbyn**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i system drwyddedu fel y'i nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, fodd bynnag penderfynwyd na fyddai rheoleiddio o'r math hwnnw yn gallu bodloni'r prif amcan i godi safonau lles anifeiliaid oherwydd natur ddiwahân maglau a'r dioddefaint y gallant ei achosi i amrywiaeth eang o rywogaethau.<br><br>Bydd dulliau amgen ar gyfer rheoli ysglyfaethwyr yn parhau i fod ar gael. |
| **Argymhelliad 30.** The Committee supports the provisions in Part 5 of the Bill to prohibit use of glue traps. |
| **Derbyn**<br><br>Nid yw'r defnydd o faglau glud yn gydnaws â'r safonau uchel o ran lles anifeiliaid rydym yn ymdrechu i'w sicrhau yma yng Nghymru. |

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

8 Mawrth 2023

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)**

Annwyl Paul,

Yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod a nodi llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl).

Rwy'n amgáu ein llythyr ac ymateb y Gweinidog er gwybodaeth.

Cofion cynnes,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/00015/23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

7.02.2023

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Ionawr ynghylch cyflwyno'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl).

Rwy'n gresynu nad yw'r Senedd wedi cael llawer o amser i ystyried y Bil. Penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â gweithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon. Arweiniodd hyn yn syth at oblygiadau o ran ein gallu i gynnal ein dadansoddiad ein hunain o'r effeithiau. Yn ychwanegol, oherwydd natur gymhleth y Bil roedd angen adolygiad manwl, ac felly yn anochel cymerodd hyn amser i weithio arno. Serch hynny, rwy'n ymwybodol o'r anawsterau gwirioneddol y mae'r oedi hwn wedi'u hachosi o ran amser craffu'r Senedd; mae Llywodraeth y DU wedi cael gwybod amdanynt yn eu tro.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflwyno Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn modd amserol a sicrhau bod y Senedd yn cael gymaint o gyfle i graffu â phosibl. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu'n hwyr gall hyn arwain at bwysau eithafol ar y broses hon, fel y gwelwyd gyda nifer o Filiau. Byddwn yn parhau i godi â Llywodraeth y DU bwysigrwydd ymgysylltu'n well gan nodi bod yn rhaid iddynt ddarparu ar gyfer prosesau'r Senedd wrth ystyried amserlenni eu Biliau.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

11 Ionawr 2023

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl)**

Annwyl Lesley,

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 13 Rhagfyr, cytunwyd i ysgrifennu atoch i fynegi pryder ynghylch y ffaith y cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl) ei osod yn hwyr.

Fel y gwyddoch, er i'r Bil gael ei osod yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mai 2022, dim ond ar 8 Rhagfyr y gwnaeth Llywodraeth Cymru osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu amserlennu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ar 17 Ionawr 2023, mae hyn yn golygu y gofynnwyd i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar 16 Ionawr fel y ddyddiad cau ar gyfer adrodd. O gofio toriad y Nadolig, prin oedd yr amser oedd ar gael i'r pwyllgorau perthnasol graffu ar y darpariaethau perthnasol yn y Bil, sef oddeutu pythefnos o fusnes.

Er bod hon o bosibl yn enghraifft eithafol o oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd, nodwn nad yw'n enghraifft unigryw, ac y bu nifer o enghreifftiau diweddar o osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn hwyrach nag sy'n ofynnol yn ôl Rheolau Sefydlog y Senedd, ac yn sylweddol hwyr ar adegau.

Rydym hefyd yn nodi'r diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol penodol hwn ac yn gwerthfawrogi'r anhawster y gall hyn ei


Senedd Cymru
Welsh Parliament

achosi i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd arnom i nodi'r effaith a gaiff y diffyg amser cyfyngedig sydd ar gael yn aml i bwyllgorau graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, gan gynnwys yr effaith ar eu gallu i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid, lle y bo'n briodol, a'u rhaglenni gwaith ehangach. Byddwch yn ymwybodol bod Aelodau wedi codi'r mater hwn droeon yn y Siambr bod nifer o bwyllgorau wedi'i godi.

Byddem yn annog yn eich annog chi, yn eich rôl fel Trefnydd, a Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, i ymrwymo i sicrhau bod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael eu gosod yn brydlon, a bod yr amser sydd ar gael i bwyllgorau'r Senedd graffu arnynt yn ddigon i'w galluogi i wneud y gwaith sydd ei angen yn ddigon manwl.

Rwy'n amgáu copi o'r llythyr hwn at y pwyllgorau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn effeithio arnynt, sef Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Y Gwir Anrh Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon